

Sul y Mamau / Tadau

Darlleniad 1: Deuteronomium 5: 1-21

Darlleniad 2: Luc 2: 41-52

Arglwydd nef a daear, dysg inni'n awr ufudd-dod a pharch wrth inni ddathlu Sul arbennig, sef Sul y Mamau/Tadau. Helpa ni i geisio diolch yn gywir i ti am rym y cariad sydd wedi taenu ei gysgod drosom ar hyd ein bywyd:

‘Boed ein diolch byth i ti
Am rieni gawsom ni.’

Gad inni sylweddoli drwy gyfrwng y gwasanaeth hwn gymaint fu'r ymdrech a'r aberth drosom. Diolchwn am bob gofal a chariad ar yr aelwyd. Diolch i ti, O! nefol Dad, am fendithio pob mam a thad heddiw. Diolch am bob esiampl dda a chyfle a roddwyd i ni drwy'r dwylo tyner a charedig:

‘Boed pob aelwyd dan dy wenau
A phob teulu'n deulu Duw.
Rhag pob brad, nefol Dad,
Cadw di gartrefi'n gwlad.’

Diolch am y cyfle hwn i gynnal gwasanaeth o ddiolch i ti am bob rhiant da, tyner a gofalus. Boed inni gydnabod ein dyled a'n diolch gan gyflwyno pob mam a thad i'th ofal tyner a thragwyddol, yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd. Carem ddiolch am y croeso a gafodd pob rhiant wrth gyflwyno plentyn neu blant i ti i'w derbyn a'u bendithio. Diolch fod dy Eglwys yng Nghrist wedi bod yn gysgod ac yn gymorth i bob cartref. Wrth inni ddiolch a chofio heddiw am yr hyn a gawsom, helpa ni i geisio talu'n ôl mewn ffordd ymarferol. Gwna ni'n garedig a meddylgar, yn gymwynasgar a gofalus ohonynt hwy. Gad inni gofio bob amser eu gofal diflino a dirwgnach. Boed bendith a gofal dy Ysbryd Glân ym mhob cartref. Helpa ni i sylweddoli beth sy'n gwneud pob mam a thad yn hapus a

dedwydd, sef plant da.

‘N’ad i’n adeiladu’n ysgafn
Ar un sylfaen is y nef.’

Gad inni weld y sylfaen, y graig, y gongl a roddwyd inni i adeiladu ein cymeriad, sef Iesu Grist ein Harglwydd. Nod rhieni da, ni a wyddom, ein Tad, yw ceisio sicrhau bod eu plant yn dod i adnabod a dilyn Iesu Grist. Helpa ni felly i fod yn ffyddlon mewn gair a gweithred i Iesu Grist. Bendithia a chynnal heddiw bob mam a thad sydd mewn trallod a phoen a gwewyr mawr dros eu plant - er gwaethaf gofal da a thirion, eu plant wedi mynd ar gyfeiliorn ac yn disgyn i demtasiynau mawr. Clyw ein gweddi daer am dosturi a thrugaredd, gwrando’n garedig ar eu cri am gael gweld dyddiau gwell ac aelwyd hapus eto. Arglwydd, tyred â'r gobaith y lleddfir pob noswaith dywyll ac ochneidio trist. Dychwel yr amser y dymunem oll fwynhau dy dangnefedd pur. Gweld pob teulu’n cofleidio efengyl Iesu Grist gan fwynhau dy wledd gyda'r plant o gylch y tân. Yn dy gariad, yn dy ras, O! Nefol Dad, maddau bob pechod, diffyg a gwendid sydd ynom. Gwna i ni o'r newydd barchu a charu pob aelwyd a roddest i ni drwy rieni da.

‘Tywys di ni i'r dyfodol,
Er na welwn ddim ond cam;
Cariad Duw fydd eto'n arwain,
Cariad mwy na chariad mam.’

Derbyn ein diolch er mawr glod i'th enw yn Iesu Grist, yr hwn a'n dysgodd pan weddiwn i ddweud gyda'n gilydd, ‘Ein Tad ...’
Amen.

Dewi Morris